



gylchlythyr
GAEAF 2021



Croeso i gylchlythyr y gaeaf 2021 ac Ymddiriedolaeth Shared Earth ar ei newydd wedd!

Mae ychydig flynyddoedd wedi mynd heibio ers ein cylchlythyr printiedig diwethaf a gobeithiwn y bydd hwn yn ddiweddariad diddorol i'n holl gefnogwyr a chyfeillion.

Cyrhaeddodd yr argyfwng coronafeirws ar adeg pan oedd Ymddiriedolaeth Shared Earth (SET) yn mynd drwy gyfnod o newid yn fewnol. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r Comisiwn Elusennau wedi sefydlu ffurf newydd ar elusen o'r enw Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) a fwriedir i fod yn endid cyfreithiol cryfach a all fasnachu hyd at drosiant cyfyngedig. Sefydlwyd SET dros 30 mlynedd yn ôl fel elusen a lywodraethir gan

weithred ymddiriedolaeth ac ni allai ymgymryd â phethau fel gosod llety yn yr Eco-lodj - a dweud y gwir, bu'n rhaid sefydlu cwmni masnachu ar wahân gydag unrhyw arian dros ben yn cael ei fwydo'n ôl i'r elusen. Yn dilyn cyngor allanol gan y sector gwirfoddol, mae SET bellach wedi troi'n SCE a fydd yn galluogi'r Eco-lodj i gael ei berchenogi a'i redeg gan yr elusen.

Mae sefydlu'r SCE wedi cymryd cryn amser ac mae'r argyfwng iechyd presennol wedi gohirio pethau ymhellach. Bydd cael un sefydliad yn hytrach na dau'n helpu gyda gorbenion ac yn symleiddio'r strwythur rheoli. Ar y tu allan, fydd pobl ddim yn sylwi ar unrhyw

wahaniaeth - enw'r elusen o hyd yw Ymddiriedolaeth Shared Earth, er bod ganddi rif elusen newydd. Rydyn ni'n gobeithio dod o'r argyfwng presennol ar ffurf newydd ac y gallai natur a bioamrywiaeth gael budd o unrhyw newidiadau hirdymor sy'n deillio o lai o weithgarwch gan bobl.

Darllenwch ymlaen i ddysgu am ein holl ddatblygiadau a chynlluniau.

Gyda llawer o ddiolch am eich cefnogaeth barhaus i'n prosiect.

Glenn Strachan

Cadeirydd yr
Ymddiriedolwyr





CADW NATUR MEWN COF

AM FLWYDDYN!!

Mae ein prosiect gwyh Cadw natur mewn cof yn rhedeg ers mis Awst 2019. Ni fyddai'r prosiect dwy-flynedd hwn yn bosibl heb gymorth Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r cyllid hwn wedi'n galluogi i gyflawni cymaint yma yn Fferm Denmark. Dyma flas i chi...

DIWRNODAU GWIRFODDOLI

Mae yna wahanol ffyrdd y gall y gymuned leol gymryd rhan. Mae ein tîm brwdfrydig o wirfoddolwyr yn tyfu o hyd! Maent yn cyflawni amrywiaeth o dasgau, gan gynnwys cynnal a chadw llwybrau, rheoli dolydd a gwlyptiroedd, bondocio helyg, prosiectau bioamrywiaeth i dylluanod gwynion ac ymlusgiaid/ amffibiaid a chynnal

arolygon bywyd gwyllt o'r gwahanol gynefinoedd.

Mae'r rhain i gyd yn hanfodol at reoli'r warchodfa cadwraeth ac i roi hwb i fioamrywiaeth.

Mae rhai gwirfoddolwyr hefyd yn rhoi cymorth yn y swyddfa ac mae dau wedi dod yn Ymddiriedolwyr i Ymddiriedolaeth

Shared Earth.

Myfyrwyr prifysgol yw Gwirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth sy'n ymuno â ni gwpwl o weithiau y flwyddyn – profiad gwyh iddyn nhw ac wrth gwrs rydyn ni'n elwa hefyd! Bydd gwirfoddolwyr yn elwa mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys cymryd rhan mewn prosiect cymunedol lleol, awyr iach, gweithgarwch corfforol, dysgu sgiliau newydd, cwrdd â phobl o'r un anian a chyfrannu i brosiect hynod werth chweil. Byddwn ni'n dod at ein gilydd weithiau i ddiolch iddynt a dathlu eu holl waith caled a'u cyflawniadau.

GWEITHGAREDDAU BYWYD GWYLLT

Mae ein digwyddiadau cyhoeddus yn cynnig cyfleoedd eraill i bobl leol gymryd rhan: troeon ystlumod, archwilio pelenni tylluanod,





arolygon o wyfnod, adar a grifft brogaod, Ceidwaid lfainc ac ymweliadau gan grwpiau cymunedol. Mae'r gwahanol arolygon yn cyfrannu i'n cofnodion o'r rhywogaethau a geir ar y warchodfa a hefyd yn cael eu hanfon i Ganolfan Gwybodaeth Fioamrywiaeth Gorllewin Cymru.

Mae gwartheg yr ucheldir yn parhau i bori'r gweirgloddiau gan eu gwella ar gyfer y blodau gwyllt, anifeiliaid di-asgwrn-cefn ac yn y blaen. Mae ffensiau newydd wedi sicrhau bod y gwartheg yn aros yn y caeau.

SUT MAE COVID-19 A'R CYFNOD CLO WEDI EFFEITHIO ARNON NI

Mae'r pandemig presennol wedi golygu rhai newidiadau i sut rydyn ni'n gwneud pethau fan hyn, gan gynnwys edrych ar ffyrdd gwahanol o ymgysylltu ag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol drwy ddefnyddio taflenni gwaith sy'n cysylltu Fferm Denmark â'r cwricwlwm a gweithgareddau hwyl. Mae gynnon ni rai cynlluniau cyffrous ar y gweill ar gyfer 2021, gan gynnwys Diwrnod Agored. Mae ymweld â'n gwarchodfa natur yn helpu pobl yn yr amserau anodd hyn drwy gynnig rhywle i ymlacio a mwynhau byd natur. Os hoffech gael gwybod mwy am sut i gymryd rhan, cysylltwch â ni – bydden ni wrth ein boddau cwrdd â chi!



Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi



Landfill Disposals Tax Communities Scheme



CYSYLLTU Â NI

Ymddiriedolaeth Shared Earth
Canolfan Gadwraeth Fferm Denmark

Betws Bledrws,

Llanbedr Pont Steffan, SA48 8PB

01570 493358

info@denmarkfarm.org.uk

www.denmarkfarm.org.uk

DILYNWCH NI

Facebook @denmarkfarm

Twitter @denmarkfarm

Instagram @ffermdenmarkfarm

Rhif elusen: 1183155

Byddwch yn rhan o'n stori...

AROS

Pa ffordd well i ddarganfod a mwynhau'r warchodfa natur ddeugain erw yma na chymryd hoe fach neu wyliau teulu gyda ni? Dewiswch rhwng cysur ein Eco-lodj hunanddarpar, naws wladaidd y byncws neu dawelwch yr Eco-wersyllfa, pob un yn cynnig llety cynaliadwy i gefnogi ein tasgau amgylcheddol craidd. www.denmarkfarm.org.uk/eco-lodge



DYSGU

Beth bynnag yw'ch anghenion dysgu, gallwn gynnig cwrs neu weithdy i'ch siwtio chi, gan amrywio o sgiliau cadwraeth ymarferol, ecoleg ac adnabod rhywogaethau i arddio, byw'n gynaliadwy a chrefftau naturiol. Os nad ydych chi'n gweld rhywbeth o ddiddordeb, gallwn hefyd drefnu digwyddiadau pwrpasol i grwpiau bach. www.denmarkfarm.org.uk/events

CYFRANNU

Fel elusen gadwraeth annibynnol fach rydyn ni bob amser yn croesawu rhoddion i helpu i ddatblygu ein gwaith. Bydd unrhyw rodd y gallwch ei gwneud, mawr neu fân, yn ein helpu i wireddu ein gweledigaeth o gefn gwlad mwy amrywiol i'r cenedlaethau i ddod. Beth am sefydlu rhodd fisol reolaidd i'n helpu i ddod drwy'r storom? Gallwch wneud hyn gydag ychydig gliciau ar ein tudalen Localgiving neu, os yw'n well gynnoch chi dalu drwy Archeb Sefydlog, cysylltwch â ni i ofyn am ein manylion banc. <https://localgiving.org/charity/shared-earth-trust>

YMAELODI Â NI

Ymaelodi ag Ymddiriedolaeth Shared Earth yw'ch cyfle i fod yn rhan o'r ateb tuag at sicrhau cynaliadwyedd ariannol i'n helusen. Mae incwm rheolaidd gan ein haelodau'n gadael i ni adeiladu ar y gwaith adfer ecolegol rydym yn ei wneud ers dros ddeng mlynedd ar hugain. Mae aelodaeth

hefyd yn cynnig buddion eraill ar ffurf gostyngiadau ar ein digwyddiadau a chyfleoedd arbennig. www.denmarkfarm.org.uk/membership

SIOP

Mae'r Siop Fach Werdd yn Fferm Denmark yn cynnig anrhegion, crefftau a



chardiau unigryw a hardd sydd wedi'u gwneud yn lleol, yn ogystal â chrysau-T a mygiau, canllawiau adnabod bywyd gwyllt ac offer. Galwch heibio i bori yn ystod oriau gwaith arferol. Os ydych chi byth yn siopa ar-lein, mae gynnon ni ddwy ffordd y gallwch roi i'n helusen heb iddi gostio'r un ddimai goch i chi. Cofrestrwch i gefnogi Ymddiriedolaeth Shared Earth ar GiveAsYouLive (os gallwch ddefnyddio'r ddolen hon <https://bit.ly/2K4SQvb> mi wnawn ni dderbyn £5 yn ychwanegol) ac ar Amazon Smile.